# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 11-08 (p4) : 25 Ebrill 2008**

## Adroddiad i Bwyllgor Menter a Dysgu

### Dydd Gwener, Ebrill, 25ain 2008 – Huw Evans OBE, Prifathro, Coleg Llandrillo

### Gerry Jenson, Prifathrawes Gynorthwyol, Coleg Llandrillo

### Pwrpas

Datblygwyd y papur hwn i hysbysu ymholiad y Pwyllgor am gyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru gyda chyfeiriad benodol i gyfraniad gwerthfawr sy'n cael ei wneud gan Sefydliadau Addysg Bellach (SAB) sy'n cyflwyno rhaglenni addysg uwch.

Mewn nifer o achosion yng Nghymru mae gan SAB gryfderau yng nghyd-destun cyflwyno addysg uwch sy'n berthynol i'w cenhadaeth benodol. Mae SAB sy'n ymglymedig i gyflwyno AU yn blaenoriaethu addysg uwch galwedigaethol sy'n cefnogi anghenion busnesau lleol, y sector gyhoeddus a dyheadau dysgwyr sy'n dymuno a/neu angen astudio o fewn eu cymunedau eu hunain.

Mae gan SAB gysylltiadau gwaith da wedi eu sefydlu gyda chyflogwyr lleol, sy'n ymateb i ofynion y sector leol, ac yn benodol, anghenion busnes bach a chanolig. Mae gan rai SAB draddodiad sefydlog o hyrwyddo datblygiad lleol mewn partneriaeth gyda diwydiant lleol, sy'n croesawu datblygiad hyd at, a chynnwys lefel gradd. Mae'r cyfle diweddar i weithio gyda chyflogwyr lleol er mwyn datblygu a chyflwyno Graddau Sylfaen yn integrol i'r datblygiad hwn, ac yn gyfansoddyn hanfodol o ymrwymiad cyflogwr.

Yng nghyd-destun ehangu cyfranogiad i addysg uwch, mae denu a chefnogi dysgwyr o gefndiroedd addysgiadol an-rhaddodiadol yn agwedd sylfaenol o ddarpariaeth AU mewn AB.

Mae'r papur hwn yn dadlau fod y cryfderau hyn yn diweddau gydag AU llwyddiannus mewn Colegau AB gan eu bod wedi eu lleoli'n dda i fod yn yrwyr sgiliau lefel uwch i'w economïau lleol, a gan fod mesurau tebyg angen bod yn eu lle i gefnogi datblygiadau AU pellach mewn AB, a chydnabyddiaeth benodol i'r rôl mae'r sefydliadau yma'n eu perfformio o fewn rhanbarthau a lleoliadau ar draws Cymru.

### Cefndir

Nodweddion Allweddol o AU mewn AB

Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth AU mewn AB yn golygu partneriaeth rhwng Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) a SAB. Mewn nifer o Golegau caiff AU mewn AB ei ryddfreinio gan y partneriaid SAU h.y. mae'r arian yn llifo drwy'r SAU partner ac mae'r myfyrwyr yn "perthyn" i'r SAU. Mae dau SAB yng Nghymru yn derbyn arian sylweddol yn uniongyrchol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch (Coleg Llandrillo a Coleg Sir Gâr) ac mae hyn yn darparu'r sefydliadau gyda'r ymreolaeth ychwanegol wrth ddatblygu eu portffolio AU ac ymatebolrwydd pellach i anghenion lleol.

Caiff pob rhaglen AU mewn AB eu dilysu gan SAU neu gyrff dyfarnu megis EDEXCEL a bydd y rhaglenni yma'n cael eu rhedeg yn unol â gofynion y corff dyfarnu, o fewn fframwaith partneriaeth.

Agwedd allweddol o AU mewn AB yn y blynyddoedd diweddar yw'r datblygiad o Raddau Sylfaen. Rhaglenni gradd yw'r rhain a ddatblygir mewn partneriaeth gyda chyflogwyr a/neu Gynghorau Sector Sgiliau fel arfer, ac yn bennaf cânt eu dylunio ar gyfer dysgwyr rhan-amser sydd mewn gwaith. Ble y bo'n bosibl, mae llwybrau datblygu ar gael at raddau anrhydedd, a astudir ar sail LlA neu RhA. Mae gan y datblygiad yma'r potensial i drawsffurfio ymrwymiad cyflogwr a darparu cam newid i sylfaen sgil yr economi leol.

Coleg Llandrillo

Coleg Llandrillo yw'r ail Goleg AB mwyaf yng Nghymru (23,000 o fyfyrwyr) gyda phroffil ansawdd rhagorol fel a ddangosir gan y graddau 1 syth a enillodd yn yr arolwg Gweithle ac AU mwyaf diweddar. Mae'r Coleg yn gwasanaethu rhanbarth Gogledd Cymru gyda chanolbwynt benodol ar Siroedd Conwy a Sir Ddinbych. Fe ddominyddir yr ardal gan BBaCH ac economi sgiliau isel, cyflog isel. Ar hyd yr arfordir mae yna gymysgedd o ardaloedd eithaf cefnog gydag ardaloedd o lefelau uchel o amddifadedd, er enghraifft, Gorllewin y Rhyl. Yn fewndirol mae yna ardal wledig fawr gyda phoblogaeth wasgaredig, gyda chanran uchel ohonynt yn siarad Cymraeg. Mae'r coleg yn gweithredu ar gyllideb o dros £30,000,000 ac yn cyflogi dros 1000 o staff.

Mae Coleg Llandrillo mewn lleoliad da i friffio'r pwyllgor o achos ei hanes hir o gyflwyniad AU mewn AB, maint ei fintai AU a'i brofiad o ariannu'n uniongyrchol drwy HEFCW a pherthnasau rhyddfraint gyda phartneriaid AU amrywiol. Yn bresennol mae'r coleg yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda Phrifysgol Bangor a NEWI, a chaiff llawer o'i ddilysu ei wneud drwy Brifysgol Cymru.

Cenhadaeth Coleg Llandrillo ar gyfer ei bortffolio AU yw i ddarparu addysg uwch galwedigaethol o'r ansawdd uchaf sy'n hygyrch i ddysgwyr, wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda chyflogwyr ac yn cefnogi'r economi leol a chenedlaethol.

Corff myfyrwyr AU y Coleg

Yn 2006/07 roedd gan y Coleg 1,133 o gofrestriadau addysg uwch, roedd 21% yn llawn amser a 79% yn rhan-amser. Mae hyn yn

adlewyrchu'r cydbwysedd o ddarpariaeth llawn amser i ran-amser, sydd wedi bod yn gyson ers nifer o flynyddoedd. Mae dysgwr AU nodweddiadol yng Ngholeg Llandrillo dros 22 mlwydd oed, yn lleol, yn astudio'n rhan-amser ac yn dod o gefndir academaidd an-rhaddodiadol. Mae ehangu cyfranogiad felly'n integrol i gefnogi'r cenhadaeth AU ac mae'r Coleg yn sicrhau fod y dysgwyr o gefndiroedd academaidd an-rhaddodiadol yn derbyn y gefnogaeth maent ei angen i facsimeiddio eu potensial academaidd.

Mae tua 55% o grwp oedran 22 ac iau wedi cofrestru ar raglenni llawn amser. Mae'r Coleg yn ymwybodol iawn o bwysau ariannol ar bobl ifanc a allai eu hatal gan y pwysau yma rhag astudio i ffwrdd o gartref. Mae'r Coleg hefyd yn ymwybodol y gallai llawer o bobl ifanc sydd ddim â diddordeb mewn addysg uwch draddodiadol fod yn llwyddiannus ar gwrs addysg uwch galwedigaethol. Mewn ymateb i'r materion yma mae'r Coleg yn gweithio'n agos gydag ysgolion uwchradd lleol i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd AU galwedigaethol lleol fel cyfansoddyn integrol o lwybrau dysgu 14-19. Mae gan y Coleg ystod o ysgoloriaethau a bwrsariaethau arloesol i gefnogi myfyrwyr sy'n datblygu o ysgolion uwchradd lleol neu gyrsiau lefel 3 y Coleg i addysg uwch.

Mae darlithwyr Coleg sy'n ymglymedig yng ngweithgaredd AU yn brofiadol yn eu sector galwedigaethol, yn gymwys ac yn ymchwilio'n weithredol mewn nifer o achosion. Mae nifer yn cynnal swyddogaethau ymgynghoriaeth, yn y wlad hon a thramor. Er hynny mae ganddynt brif ffocws ar ddysgu ac addysgu ac yn darparu lefel uchel o gefnogaeth bersonol sydd ei angen ar nifer o'n cleientiaid.

Felly mae gan AU mewn AB rôl allweddol i'w chwarae wrth gyrraedd targed CCC o gynyddu'r nifer o fyfyrwyr Cymreig cartref sy'n cofrestru gyrsiau llawn a rhan-amser mewn sefydliadau Cymreig.

Y Cynnig Cwricwlwm

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r Coleg wedi moderneiddio ei bortffolio AU, mewn ymgynghoriad gyda'i bartneriaid SAU a'u hysbysu gan agendau cenedlaethol, dyheadau dysgwyr ac anghenion cyflogwyr. Mae hyn wedi arwain at gynnig tua 20 rhaglen addysg uwch amlddisgyblaethol sy'n cynnwys ystod o raddau sylfaen arloesol, rhaglenni unigryw a graddau anrhydedd llawn. Mae'r rhestr grynodeb lawn o ddarpariaeth AU fel a ganlyn. Cafodd y rhestr ei ddilysu gan Brifysgol Cymru, Prifysgol Bangor, Prifysgol Morgannwg, Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru ac Edexcel.

Rhestr o Grynodeb Cwrs:

### Graddau Sylfaen:

Cyfrifiadureg; Celf a Dylunio; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Astudiaethau Plentyndod a Chefnogaeth Dysgu; Rheolaeth a Busnes; Rheolaeth Adwerthu; Rheolaeth Teithio a Thwristiaeth; Tywys Twristiaid; Rheolaeth Gwesty a Lletygarwch; Astudiaethau Heddlu; Hyfforddiant Chwaraeon; Rheolaeth Cerbyd Modur; Datblygiad Ieuenctid a Chymuned*; Astudiaethau Byddardod; Rheolaeth Llyfrgell a Gwybodaeth*

### Graddau:

Polisi Cyhoeddus a Chymdeithasol; Addysg a Hyfforddiant; Rheolaeth a Busnes; Rheolaeth Teithio o Thwristiaeth; Rheolaeth Celfyddydau Coginiol*; Tywys Twristiaid*

### Diplomas/Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch:

Cyfrwng Creadigol a Rhyngweithiol; Cyfrifiadureg; Peirianneg Sifil/Adeiladwaith; Peirianneg Trydanol; Peirianneg Mecanyddol; Ffotograffiaeth; Celfyddydau Coginiol; Rheolaeth Salon

### Diplomas Ôl-radd:

Cynghori; Addysg

### Cymwysterau proffesiynol lefel uwch:

Diploma mewn Rheolaeth; Astudiaethau Sefydliad Siartredig Datblygiad Personol; Llyfrgelloedd TCG

* yn ddibynnol ar ddilysiad

### Ymrwymiad Cyflogwr

Mae gan Goleg Llandrillo gysylltiadau cyflogwr rhagorol a adeiladwyd drwy ei weithgaredd addysg bellach, yn y gweithle ac addysg uwch. Mae'r Coleg wedi datblygu "Pwynt Busnes" sy'n darparu canolbwynt ar gyfer ymrwymiad cyflogwr a "siop un stop" ar gyfer busnesau. Yn ychwanegol mae pob maes galwedigaethol yn y Coleg yn cynnwys grwp ffocws sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant lleol a busnesau sy'n cwrdd yn rheolaidd i sicrhau fod datblygiadau cwricwlwm y Coleg a safonau ansawdd yn unol ag anghenion cyflogwr. Mae'r cysylltiau cyflogwr sefydlog a chynhwysfawr yma wedi sylfaeni datblygiad y portffolio AU bresennol. Yn bresennol mae gan y Coleg dros 1600 o gyflogwyr sy'n weithredol ar ei ddata-bas, a dros 500 o gyfrifon sy'n barhaol, gan gynrychioli dros 8000 o fyfyrwyr sy'n seiliedig yn y gweithle. Mae hyn yn darparu gwaelodlin helaeth i gynllunio datblygiad cyfleoedd datblygiad yn y dyfodol, gan gynnwys datblygiad cyfleoedd hyfforddiant addysg uwch perthnasol ac unigryw. Mae'r Coleg yn mabwysiadu ymdriniaeth bartneriaeth i'w ddatblygiad AU a ddangosir gan yr enghreifftiau canlynol.

1. Gradd Sylfaen mewn Rheolaeth Cerbyd Modur

Datblygwyd y gradd yma gan Goleg Llandrillo mewn cydweithrediad gyda chyflogwyr lleol a chynrychiolwyr o fusnesau bychan lleol. Caiff y gradd ei ddilysu gan Brifysgol Cymru.

2. Gradd Sylfaen mewn Astudiaethau Heddlu

Datblygwyd y gradd sylfaen yma i gyfeirio at angen a nodwyd gan Goleg Llandrillo mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru a chaiff ei ddilysu gan Brifysgol Cymru.

3. HNC mewn Gwasanaethau Tân Adeilad

Datblygwyd y rhaglen yma mewn partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Tân a Phrifysgol Morgannwg mewn ymateb i angen a nodwyd yn y Gwasanaeth er mwyn cefnogi dyheadau gyrfa swyddogion tân sydd eisiau datblygu i swyddi uwch. Yn bresennol datblygir y rhaglen fel Gradd Sylfaen gyda dilysiad lleol.

4. Gradd Sylfaen mewn Tywys Twristiaid

Dyma gydweithrediad Cymru gyfan rhwng UWIC a Choleg Llandrillo sy'n ymateb i brinder Tywyswyr Twristiaid cymwys yng Nghymru. Datblygwyd y cwrs gyda chefnogaeth lawn Sefydliad Tywys Twristiaid a dyma'r cwrs cyntaf ym maes pwnc Tywys Twristiaid yn y DU. Bydd myfyrwyr hefyd yn ennill cymhwyster proffesiynol 'Bathodyn Gas' fel rhan integrol o'r cwrs.

5. HND mewn Lletygarwch a Rheolaeth (Celfyddydau Coginiol)

Caiff y rhaglen yma ei ddilysu gan EDEXEL ac mae'n darparu model hyblyg arbennig gan fod y cwrs yn cynnwys modiwlau craidd ac ystod o opsiynau modiwl y gellir eu cyflwyno fel fo angen gan gyflogwr penodol neu grwp cleient fel HND traddodiadol 2 flynedd, HND trac cyflym 18 mis, neu fodiwlau sengl/grwpiau o fodiwlau ar gyfer anghenion hyfforddi gweithiwr/rheolaeth penodol. Er enghraifft cafodd angen hyfforddi ei nodi ar gyfer "merched cinio" yn y cyd-destun maeth a diet. O ganlyniad datblygwyd Rhaglen Bwyta'n Iach i Ysgolion gan ddefnyddio modiwl addas o'r gyfres HND.

6. Gradd Sylfaen mewn Astudiaethau Plentyndod a Chefnogaeth Dysgu

Datblygwyd y gradd sylfaen gan Goleg Llandrillo a chaiff ei ddilysu gan Brifysgol Cymru. I ddechrau fe'i ddatblygwyd i gefnogi anghenion hyfforddi meithrinfeydd lleol ac fe'i ddiwygiwyd i ddarparu ar gyfer anghenion hyfforddi Cynorthwywyr Dysgu a Chynorthwywyr Dosbarth o achos prinder o weithwyr cymwys a nodwyd yn yr ardaloedd yma.

7. Tystysgrifau Addysg Uwch a Diplomas ar gyfer Ymarferwyr Gofal Iechyd

Dyma brosiect datblygus yn cynnwys Coleg Llandrillo, Cyngor Sector Sgiliau – Sgiliau dros Iechyd a NEWI. Bwriedir y prosiect i ddatblygu cymhwyster AU hyblyg, yn seiliedig ar allu ar lefel 4, gellir ei addasu yn ddibynnol ar arbenigedd sector y cyfranogwyr e.e. Nyrsys Ardal, Nyrsys Clinig Clefyd y Siwgr.

Llwybrau Dysgu

Lleolir SAB mewn man delfrydol i ddarparu llwybrau dysgu i ddysgwyr lefel 1 drwodd i ddarpariaeth gradd mewn cyd-destun cyfarwydd lleol. Gall llwybrau o'r fath dargedu dysgwyr aeddfed o lwybrau addysgiadol an-rhaddodiadol drwy lwybrau dysgu Cymunedol a Mynediad i Addysg Uwch yn effeithiol. Gall dysgwyr yn y gweithle ddatblygu o brentisiaethau modern drwodd i raddau sylfaen a thu hwnt. Gall dysgwyr ifanc sydd wedi tangyflawni yn yr ysgol ddilyn cyrsiau llwybr AU traddodiadol o lefel 1, 2 a 3 drwodd i ddarpariaeth gradd sylfaen ac anrhydedd.

Datgloi potensial AU mewn AB yn y dyfodol.

Mae gan SAB rolau ganolog wrth ddatblygu sylfaen sgil yr economi leol, gan ddarparu cyfleoedd datblygiad lleol i lefel IV ac uwch, ac yn aml yn darparu ymgynghoriaeth a hyfforddiant unigryw wrth i'r anghenion godi. Maent yn darparu cyfleoedd lleol i rannau mawr o'r boblogaeth Gymreig na fyddai'n cael mynediad i addysg uwch fel arall.

Mae potensial pellach yn bodoli i SAU yn seiliedig ar griterion ansawdd cytunedig i gyflwyno a dilysu eu Graddau Sylfaen eu hunain er mwyn darparu gwasanaeth ymatebol i gwrdd ag anghenion diwydiant lleol y sector gyhoeddus ac i wneud cyfraniad i fwyhad cymuned. Pwer a drafodwyd yn barod gyda SAU yn Lloegr.

Er hynny ni fydd pwerau dilysu yn unig yn agor cyfleoedd, mae angen ariannu pellach i gefnogi datblygiad ganolog o Raddau Sylfaen yng Nghymru. Yn bresennol cyfleoedd cyfyngedig sy'n bodoli yng Nghymru er mwyn datblygu rhyngwyneb cyflogwr, ac mae'n annhebyg y bydd trefniadau rhyddfraint drwy bartner AU ar eu pen eu hunain yn galluogi'r newid yma sydd ei angen.

Byddai ariannu cynyddol uniongyrchol yn narpariaeth AU mewn AB yn darparu SAB gyda mwy o gynhwysiad a hyblygrwydd wrth ddatblygu darpariaeth yn y dyfodol. Ni ddylai'r pwyntiau a wneir uchod gael eu dehongli fel dymuniad gan SAB "i fynd amdani ar eu pen eu hunain". Byddai'r berthynas rhwng ein partneriaid SAU yn parhau i fod yn sylfaen i ddatblygiad AU mewn AB, yn enwedig yng nghyd-destun sicrwydd ansawdd a chyfleoedd datblygiad a gynllunnir ar gyfer y sylfaen cleient yn y papur yma. Er hynny, ar sail cryfderau penodol SAB, credwn y byddai mwy o ymreolaeth yn nhermau datblygiad cwrs a ffrydiau ariannu, yn cefnogi agenda CCC yng nghyd-destun addysg uwch yng Nghymru.

Crynodeb o gryfderau unigryw AU mewn AB

Cyfaint a lefel o ymrwymiad gyda diwydiant lleol a busnes

Y gwasanaeth a ddarperir i ddysgwyr sydd eisiau, neu angen astudio yn eu cymunedau eu hunain

Y potensial i ymateb yn gyflym i anghenion cyflogwr datblygol a chyflwyno rhaglenni dysgu hyblyg personoledig

Llwyddiant wrth alluogi myfyrwyr o gefndiroedd an-rhaddodiadol i gyflawni

Llwybrau dysgu cynhwysfawr o lefel 1 drwodd i raglenni gradd

## Awgrymiadau

1. Fformiwleiddio polisi clir yng nghyd-destun Gradd Sylfaen yng Nghymru, sy'n cydnabod cyfraniad SAB yn llawn.

2. Rhoi ystyriaeth frys i ganiatáu pwerau Gradd Sylfaen i SAB, gyda rhaglen peilot datblygedig a ariannir.

3. Ystyried cynnydd yn ariannu uniongyrchol o AU mewn AB yng nghyd-destun ei botensial i gefnogi agenda CCC yn berthynol i ddatblygiad sgil lefel uwch ac i ehangu cyfranogiad i AU.

4. Hyrwyddo rhwydwaith o gampysau AU galwedigaethol, mewn SAB benodedig, gan weithio mewn partneriaeth gyda'r sector Prifysgol i wynebu ymrwymiad cyflogwr leol, ehangu cyfranogiad a datblygiad AU lleol.